Cronfa Budd Cymunedol Porth Wen

Gwybodaeth a Chanllawiau ar gyfer y Gronfa Flynyddol

**Trosolwg o'r Gronfa:**

Mae'r arian y Gronfa o Fferm Solar Porth Wen

Mae £10,000 ar gael yn y Gronfa ar gyfer cymunedau Cemaes ac Amlwch. Mae £8,000 wedi'i ddyrannu i Gemaes a £2,000 i Amlwch. Ceir un cyfle i gyflwyno cais yn flynyddol.

Bydd y Gronfa Flynyddol yn caniatáu i ymgeiswyr wneud cais am grantiau rhwng £500 a £2,000 fesul cais.

Disgwyliwn i geisiadau ddangos lleiafswm o 20% o gyllid cyfatebol. Rhaid i hyn fod yn gyfraniad ariannol, gan na fydd rhoddion mewn nwyddau yn cael eu hystyried. Er enghraifft, os yw cyfanswm cost y prosiect yn £2,000, gallwch wneud cais am £1,600 o'r Gronfa hon, gyda'r £400 sy'n weddill i'w gael o gronfeydd eraill.

Os na allwch ddarparu o leiaf 20% o gyllid cyfatebol, esboniwch y rheswm yn adran gyllid y ffurflen gais. Byddwch yn parhau i gael eich ystyried ar gyfer y gronfa.

Ni all ymgeiswyr llwyddiannus wneud cais am y grant mewn blynyddoedd olynol. Er enghraifft, os bydd grŵp neu unigolyn yn derbyn grant yn 2025, ni fyddant yn gymwys i wneud cais eto tan 2027. Mae hyn yn sicrhau tegwch trwy roi cyfle i fwy o unigolion a grwpiau elwa o'r grant bob blwyddyn.

Mae grwpiau cymunedol ac unigolion, Cynghorau Tref, a sefydliadau gwirfoddol o ardaloedd Amlwch a Chemaes yn gymwys i wneud cais.

Rhaid i ymgeiswyr fod â chyfrif banc neu gymdeithas adeiladu yn enw'r sefydliad cyn gwneud cais am grant.

**Eithriadau**

***Ni fydd** grantiau ar gael ar gyfer:*

- Sefydliadau masnachol
- Clybiau a chyfleusterau chwaraeon sy'n seiliedig ar aelodaeth breifat, oni bai bod aelodaeth ar agor i'r cyhoedd heb gyfyngiadau afresymol (e.e., nid trwy wahoddiad neu sefydliadau ar sail enwebiad yn unig)
- Prosiectau sy'n elwa unigolyn yn unig
- Prosiectau sy'n ennyn rhaniad hiliol neu grefyddol, gwrthdaro, neu gasineb, neu sy'n cefnogi ymgyrchoedd neu achosion pleidiol-wleidyddol
- Cyllid Ôl-weithredol: Dim ond ar gyfer prosiectau neu dreuliau a fydd yn dechrau ar ôl i'r panel wneud penderfyniad ariannu a'ch bod wedi derbyn cadarnhad ffurfiol o gymeradwyaeth y gellir gofyn am gyllid.
- Gwaith sy'n cael ei ystyried yn gyfrifoldeb statudol, megis gwaith ar briffyrdd cyhoeddus, meysydd parcio cyhoeddus, neu waith mewn ysgolion sy'n dod o dan gyfrifoldeb yr Awdurdod Addysg Lleol
- Gweithgareddau sy'n gwrthdaro â buddiannau'r cyllidwr. Er enghraifft, ni allwn ariannu unrhyw brosiectau neu sefydliadau sy'n gwrthwynebu ynni adnewyddadwy.

**Thema'r Prosiectau:**

Er mwyn bod yn gymwys, rhaid i brosiectau gyd-fynd ag o leiaf un neu fwy o'r themâu canlynol. Bydd prosiectau sy'n bodloni'r meini prawf hyn yn cael blaenoriaeth.

- Addysg a Hyfforddiant
- Bioamrywiaeth a Chadwraeth Cynefinoedd
- Cyfrannu at Gymunedau Bywiog, Iach, Llwyddiannus a Chynaliadwy
- Hyrwyddo Ysbryd Cymunedol ac Annog Gweithgaredd Cymunedol
- Gwella Mannau Awyr Agored
- Cefnogi Cyflogaeth yn yr Ardal

**Sicrhewch fod eich cais yn dangos yn glir sut mae eich prosiect yn mynd i'r afael ag un neu fwy o'r themâu hyn yn adran trosolwg y prosiect ar y ffurflen gais.**

**Meini Prawf Barnu**

Bydd y panel yn asesu ceisiadau yn seiliedig ar y meini prawf canlynol:

- Buddion Cymunedol: Sut mae'r prosiect yn dod â budd i'r gymuned trwy un neu fwy o'r themâu a restrir uchod (e.e., bioamrywiaeth, ysbryd cymunedol, addysg, hanes, ac ati).

- Gwydnwch Cymunedol: Potensial y prosiect i ddatblygu gwydnwch cymunedol trwy gefnogi syniadau newydd a chreadigol.

- Iaith Gymraeg: Cyfraniad y prosiect at feithrin a hyrwyddo'r Gymraeg.

- Ymarferoldeb: Ymarferoldeb y prosiect, gan ystyried amserlenni ac adnoddau ariannol sydd ar gael.

- Ystyriaethau Ychwanegol: Bydd y panel hefyd yn ystyried ffactorau megis gallu'r ymgeisydd i gyflawni'r prosiect, gwerth am arian, defnyddio contractwyr lleol, a nifer y bobl yn yr ardal a fydd yn elwa o'r prosiect.